# Proses Uwchgyfeirio Cadeiryddion Cynhadledd Amddiffyn Plant

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 21 Ebrill 2026 | 21 Ebrill 2029 |

# Proses Uwchgyfeirio Cadeiryddion Cynhadledd Amddiffyn Plant Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Plant, CYSUR.

## Cyd-destun a diben

Mae gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru rwydwaith o gadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant weithredol a chynhyrchiol. Cefnogir y fforwm hwn gan y bwrdd diogelu rhanbarthol ac mae'n dod ynghyd dair gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd i weithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu arferion, gan gynnwys datblygu dogfennaeth a thempledi cyffredin a chyson a ddefnyddir mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae'r fforwm yn ystyried canfyddiadau o gyhoeddiadau cenedlaethol lle bo'n berthnasol i'r rôl, ac mae hyn wedi cynnwys yr adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac AGIC yn 2023, mewn ymateb i'r gwersi a nodwyd yn adolygiad ymarfer plant Logan Mwangi. Gwnaed nifer o argymhellion fel rhan o'r adolygiad hwn sy'n ymwneud ag arferion mewn perthynas â chynadleddau amddiffyn plant. Mae'r fforwm o'r farn y byddai datblygu proses uwchgyfeirio gyson ar draws y rhanbarth, i'w defnyddio gan gadeiryddion cynadleddau lle bo'n briodol, yn cefnogi ac yn cynorthwyo arferion diogelu proffesiynol cadarnhaol yn y maes hwn.

Yn wahanol i rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, nid oes unrhyw ganllawiau statudol sy'n tanategu rôl cadeirydd cynhadledd amddiffyn plant yng nghyd-destun cyfrifoldebau uwchgyfeirio os nodir pryderon am arferion. O'r herwydd, mae'r broses hon yn dod o dan lywodraeth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant, CYSUR, a'i ddiben yw cefnogi prosesau sicrhau ansawdd mewnol presennol ochr yn ochr â gwiriadau a goruchwyliaeth cynhenid ar gyfer plant y gwyddys ac a nodwyd i fod mewn perygl o niwed sylweddol.

Fel arfer, bydd cadeiryddion cynhadledd amddiffyn plant a'u rheolwyr llinell yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig sydd â phrofiad ymarferol sylweddol ym maes amddiffyn plant. Maent mewn sefyllfa unigryw sy'n eu galluogi i gael trosolwg diduedd a gwrthrychol o'r risg bresennol, dealltwriaeth ac ymateb ymarferwyr ac asiantaethau i'r risg hon, yn ogystal a'r ymateb a'r ymyrraeth broffesiynol i'r risg a nodwyd fel rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant.

Mae'n bwysig nodi bod y cyfrifoldeb am reoli achosion ac atebolrwydd am wneud penderfyniadau yn nwylo'r gweithiwr cymdeithasol a'i reolwyr llinell, ochr yn ochr â'r asiantaethau statudol sy'n gweithio i gefnogi'r teulu fel rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant. Ni fwriedir i'r protocol hwn danseilio na drysu hyn, a bydd yn gweithredu'n unig fel mecanwaith rhybuddio gan gadeirydd y gynhadledd i reolwyr tîm, uwch-reolwyr ac yn y pen draw, Pennaeth Gwasanaethau Plant/neu gyfwerth yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Pan fydd arferion o bosibl wedi methu **yn sylweddol** â chyrraedd y disgwyliadau a/neu pan ystyrir nad yw lefel yr ymateb a'r ymyrraeth gan asiantaethau drwy'r Gynhadledd Amddiffyn Plant yn gymesur â lefel y risg a nodwyd.
- Pan fydd lefel **sylweddol** ac annerbyniol o adael i bethau lithro ac oedi wrth weithredu a datblygu gwaith fel rhan o'r Cynllun Amddiffyn Plant.
- Pan fydd y cadeirydd yn nodi **risg uchel uniongyrchol o niwed** i'r plentyn nad yw wedi'i gydnabod gan yr asiantaethau statudol sy'n cefnogi'r teulu fel rhan o'r cynllun amddiffyn plant.

- Pan nad yw asiantaeth allweddol wedi rhannu gwybodaeth berthnasol yn briodol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant.
- Pan fydd diffyg cydweithrediad amlasiantaeth clir wrth gyflawni a gweithredu'r cynllun amddiffyn plant, sy'n **effeithio'n sylweddol ar lefel y risg i'r plentyn** a/neu ar weithredu'r cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant.
- Pan fydd cadeirydd y gynhadledd o'r farn bod asiantaethau sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd amddiffyn plant wedi gwneud **camgymeriad sylweddol** wrth wneud eu penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant neu dynnu enw o'r gofrestr.
- Pan fydd **bylchau sylweddol wedi'u nodi** yn ystod yr ymweliadau a gynhelir gan asiantaeth fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant rhwng cynadleddau.

Bwriedir i'r protocol hwn gael ei ddefnyddio, trwy eithriad, yn y sefyllfaoedd a'r senarios uchod i gefnogi deialog adeiladol a defnyddiol yn fewnol ac ar draws asiantaethau lle mae risg uwch neu ddiffygion ymarfer ac ni fwriedir iddo fod yn wrthwynebol. Bydd angen i'r cadeirydd arfer barn broffesiynol synhwyrol ynghylch sut y caiff ei gymhwyso ac o dan ba amgylchiadau. Nid yw'n disodli'r broses ranbarthol ar gyfer *Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol*. Mae hon yn broses ar wahân a dylai ymarferwyr, rheolwyr ac asiantaethau barhau i'w defnyddio pan fo gwahaniaeth barn proffesiynol na ellir ei ddatrys yn anffurfiol. Os bydd y cadeirydd wedi codi mater yn dilyn cynhadledd amddiffyn plant a bod asiantaeth yn parhau i fod yn anfodlon neu'n bryderus ynghylch yr ymateb a'r penderfyniad, yna dylid defnyddio'r Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol lle bo angen a lle bo'n briodol er mwyn datrys y mater. Dylid uwchgyfeirio unrhyw bryderon neu faterion difrifol heb eu datrys a godir gan ymarferwyr neu reolwyr yn y gynhadledd sy'n ymwneud ag ymddygiad unigol fel rhan o broses gwyno'r asiantaeth honno.

## Beth yw manteision proses uwchgyfeirio ranbarthol

Mae gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru hanes sefydledig o ddatblygu canllawiau, polisïau a phrotocolau diogelu amlasiantaeth, ac mae cyfres o'r rhain ar gael ar eu gwefan, ochr yn ochr ag adnoddau i gefnogi arferion diogelu ac ymyrraeth ar gyfer plant sydd mewn perygl ac mewn angen. Mae sawl ffrwd waith ar draws yr is-grwpiau yn parhau i gefnogi datblygiad arferion ac ymatebion amlasiantaeth cyson ar gyfer plant a theuluoedd lle bo hyn yn bosibl ac yn briodol. Bydd cael proses gyson ranbarthol glir a gaiff ei gweithredu a'i deall gan bob cadeirydd cynadleddau, ymarferwyr a rheolwyr ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cefnogi ymateb rhanbarthol cyson ac ymyrraeth amserol gan sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu datrys yn brydlon, yn rhoi eglurder a hyder i ymarferwyr ac yn helpu i gefnogi diwylliant o herio parchus a chwilfrydedd proffesiynol. Bydd yn cynorthwyo ac yn ategu prosesau sicrhau ansawdd mewnol presennol ac yn darparu mesur diogelwch ychwanegol ar gyfer plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol, yn enwedig mewn achosion cymhleth o risg uchel a/neu lle mae rheoli risg yn dibynnu ar gydbwyso manwl.

## I bwy mae'r broses uwchgyfeirio yn berthnasol?

Mae'r broses hon yn berthnasol i holl bartneriaid statudol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, awdurdod lleol Ceredigion, awdurdod lleol Sir Benfro ac awdurdod lleol Powys. Mae llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth yn dod o dan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru fel rhan o drefniadau partneriaeth diogelu rhanbarthol. Cydnabyddir bod llawer o sefydliadau gwirfoddol a thrydydd sector yn darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd sy'n destun cynllun gofal a

chymorth amddiffyn plant, ac er nad yw'r rhain yn bartneriaid statudol i'r Bwrdd Rhanbarthol, maent yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gadw plant yn ddiogel. Felly, yn ysbryd gweithio a chydweithio amlasiantaethol, disgwylir iddynt gydymffurfio â'r broses hon os nodir problem mewn perthynas â gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

## Proses ar gyfer uwchgyfeirio

Cydnabyddir bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd am wneud penderfyniadau yn nwylo’r adran gofal cymdeithasol a'r grŵp amlasiantaeth sy'n cefnogi'r teulu. Felly, yr awdurdod lleol yw'r brif asiantaeth pan roddir unrhyw gynllun gofal a chymorth amddiffyn plant ar waith, a’r awdurdod hefyd yw ceidwad y broses hon. Felly, fel yr amlinellir uchod, dylid uwchgyfeirio unrhyw faterion a nodwyd gan Gadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant mewn cysylltiad ag unrhyw asiantaeth neu wasanaeth, drwy strwythur rheoli llinell yr awdurdod lleol, a fydd yn arwain y gwaith o ddatrys y mater.

## Cam 1: Datrysiad anffurfiol

Trafodaeth uniongyrchol rhwng cadeirydd y gynhadledd a'r gweithiwr cymdeithasol (gweithiwr allweddol). Bydd cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant yn hysbysu’r rheolwr tîm a rheolwr tîm y gynhadledd am y mater a chanlyniad y drafodaeth ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt drwy systemau cofnodi mewnol. Dylid cynnal y drafodaeth a dod i benderfyniad cytunedig o fewn 48 awr (oriau gwaith).

## Cam 2: Cyfraniad y Rheolwr Llinell -

Os nad yw Cam 1 yn datrys y mater a/neu os oes anghydfod rhwng cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant a'r gweithiwr cymdeithasol (gweithiwr allweddol) ynghylch y mater a godwyd a/neu'r ffordd orau i’w ddatrys, bydd cadeirydd y gynhadledd yn hysbysu ei reolwr llinell a fydd yn trafod y mater â’r rheolwr tîm. Bydd rheolwr tîm y gynhadledd yn hysbysu'r uwch-reolwyr perthnasol am y mater ac unrhyw ganlyniad y cytunwyd arno drwy systemau cofnodi mewnol. Dylid cynnal y drafodaeth a dod i benderfyniad o fewn 72 awr (oriau gwaith - pum diwrnod gwaith o'r adeg y nodwyd y problemau gyntaf).

## Cam 3: Cyfraniad yr Uwch-reolwr

Os nad yw Cam 2 yn datrys y mater a nodwyd a/neu os yw’r anghydfod rhwng y rheolwyr tîm priodol yn parhau, bydd y materion a nodwyd yn cael eu huwchgyfeirio at yr uwch-reolwyr priodol. Dylid cynnal y drafodaeth a dod i benderfyniad o fewn pum niwrnod gwaith (10 diwrnod gwaith o'r adeg y nodwyd y problemau gyntaf) a dylid cofnodi’r canlyniad ar systemau cofnodi mewnol.

## Cam 4 - Pennaeth Gwasanaeth/ neu gyfwerth

Os nad yw cam 3 yn datrys y mater a/neu os oes anghydfod yn parhau ar lefel uwch reolwyr ac na ellir dod o hyd i ddatrysiad, bydd y mater yn cael ei uwchgyfeirio at Bennaeth y Gwasanaethau Plant/neu gyfwerth i'w ystyried a'i ddatrys. Bydd y drafodaeth yn cael ei chynnal a datrysiad yn cael ei wneud o fewn pum diwrnod gwaith (15 diwrnod gwaith o'r adeg y nodwyd y problemau gyntaf). Mae'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd terfynol am unrhyw benderfyniad yn nwylo Pennaeth y Gwasanaeth Plant/neu gyfwerth. Dylid cofnodi'r canlyniad a'r penderfyniad terfynol, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar systemau cofnodi mewnol.

## Pryderon diogelu brys

Os bydd cadeirydd y gynhadledd yn nodi lefel uchel o risg uniongyrchol i blentyn fel rhan o'r gynhadledd amddiffyn plant, ac os nad yw’r cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn cael ei ystyried yn gymesur â'r lefel risg a nodwyd, yna rhaid uwchgyfeirio’r mater at yr uwch-reolwyr perthnasol sy'n gyfrifol am reoli'r achos a'r Tîm Adolygu Annibynnol. Gwneir hyn gan a chyda chymeradwyaeth uwch-reolwr y Tîm Adolygu Annibynnol, yn dilyn trafodaeth â Chadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant.